

## 1. Pryd fydd yr Ysgol Ardal ym Mro Dysynni yn agor? Beth fydd yn digwydd nesaf o ran datblygu'r ysgol ardal newydd?

Anelir i gael yr ysgol newydd yn barod erbyn 1 Medi 2013. Y cam nesaf fydd tendro am gontractwyr i adeiladu'r ysgol. Bydd prif gontractwr yn cael ei benodi a bydd trafodaethau yn cael eu cynnal i geisio annog y contractwr i gyflogi gweithlu lleol.

## 2. Sut bydd y Cyngor yn sicrhau y bydd y gymuned leol yn cael cyfle i gyfrannu i ddyluniad yr ysgol ardal newydd ym Mro Dysynni?

Bu sesiynau yn lleol eisoes gyda phensaer ar gyfer datblygu dyluniad cychwynnol yr ysgol ardal newydd. Ymwelodd y pensaer ag ysgolion Brynchrug, Llanegryn a Llwyngwriil gan dderbyn adborth defnyddiol wrth gynnig dyluniad cychwynnol o'r ysgol ardal. Yn ogystal, cynhaliwyd arddangosfeydd cyhoeddus ble roedd cyfle i bawb weld y dyluniadau cychwynnol a rhoi barn. Yn dilyn derbyn caniatâd cynllunio gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, bydd swyddogion y Cyngor yn symud ymlaen i gael barn cynrychiolwyr lleol er mwyn sicrhau cyfraniadau gan fudd-ddeiliad ardal Bro Dysynni. Bydd hyn hefyd yn rhoi cyfle pellach am gyfraniadau gan y disgyblion.

## 3. A oes enw swyddogol wedi ei rhoi ar yr ysgol ardal newydd ym Mro Dysynni eto?

Does dim penderfyniad wedi ei wneud o ran enwi'r ysgol yn swyddogol eto. Bydd hyn yn cael ei wneud gyda chymorth cynrychiolwyr lleol a syniadau disgyblion ac eraill o'r gymuned.

## 4. Beth fydd y drefn o benodi llywodraethwyr a staff i'r ysgol ardal newydd ym Mro Dysynni?

Mae rheolau pendant ynglŷn â sefydlu Corff Llywodraethol newydd. Bydd rhaid creu Corff Llywodraethu cysgodol i gychwyn, a fydd yn gyfrifol am sefydlu'r corff terfynol a phenodi staff. Bwriedir symud ymlaen â'r broses yma yn ystod tymor yr Hydref.

## 5. Sut ydw i'n medru cael lle i fy mhlethyn yn yr ysgol ardal newydd ym Mro Dysynni?

Os ydych yn byw o fewn dalgylchoedd yr ysgolion presennol a fydd yn cau (Ysgolion Brynchrug (ac Abergynolwyn gynt), Llanegryn a Llwyngwriil) byddwch yn dod o fewn dalgylch yr ysgol ardal newydd yn awtomatig. Bydd Polisi Mynediad yr Awdurdod yn cael ei weithredu fel arfer.

## 6. Faint o blant fydd yr ysgol ardal newydd ym Mro Dysynni yn gallu eu derbyn?

Bwriedir i gapasiti'r ysgol, wedi ei chwblhau, fod ar gyfer 98 o ddisgyblion llawn amser a darpariaeth feithrin.

## 7. Pryd fydd gwaith yn cael ei wneud ar weddill ysgolion dalgylch Tywyn?

Bydd gwaith yn Ysgol Penybryn yn cychwyn yn ystod 2012 a'i gwblhau erbyn Medi 2013. Bydd gwaith uwchraddio yn cael ei wneud yn ysgolion Dyffryn Dulas a Pennal yn ystod 2012/13.

## 8. Pryd fydd Ysgol Aberdyfi yn cau a beth fydd yn digwydd i'r disgyblion?

Bydd Ysgol Aberdyfi yn cau 31 Awst 2013. Yn dilyn cau yr ysgol bydd y plant sydd yn byw yn nalgylch ysgol Aberdyfi ar hyn o bryd yn dod o fewn dalgylch Ysgol Penybryn yn awtomatig. Bydd Polisi Mynediad yr Awdurdod yn cael ei weithredu fel arfer.

## 9. Beth yw'r diweddaraf ynglŷn â datblygu'r trefniant ffederal rhwng Ysgol Dyffryn Dulas, Corris ac Ysgol Pennal?

Cymeradwyodd y Cyngor ffedereiddio Ysgolion Dyffryn Dulas, Corris ag Ysgol Pennal. Sefydlwyd gweithgor o blich llywodraethwyr Ysgol Dyffryn Dulas Corris ac Ysgol Pennal er mwyn ymchwilio i feysydd gwahanol ac er mwyn amlinellu sut y byddai'r ffederasiwn yn gweithredu ac yn datblygu. Mae'r ysgolion yn anelu i ffedereiddio'n swyddogol erbyn Medi 2012.

## 10. Beth sydd yn digwydd nesaf gyda Rhaglen Ysgolion 21<sup>ain</sup> Ganrif?

Mae rhai cynlluniau yn fwy parod na'i gilydd a bydd gwaith cychwynnol yn digwydd yn syth gyda'r cynlluniau hynny. Byddwn yn cysylltu gyda'r ysgolion perthnasol yn unigol yn nes at yr amser. Bydd yn rhaid i'r Cyngor gyflwyno achosion busnes i'r llywodraeth er mwyn cwblhau'r broses o ddenu'r arian i Wynedd.

## 11. Sut mae'r Cyngor yn bwriadu ymateb i gais Leighton Andrews i leihau llefydd gweigion?

Bydd Aelodau'r Cabinet newydd yn ystyried cynnwys y llythyr ac yn paratoi ymateb i'r llythyr. Wrth gwrs rhaid cofio mai un o nifer o ffactorau a ystyrir yng Ngwynedd yw llefydd gweigion. O gofio am hyn, bydd yn rhaid ystyried y modd gorau o ymateb i'r her wrth edrych ar flaenoriaethau'r rhaglen waith am y blynyddoedd nesaf.

Mae mwy o wybodaeth ar gael ar wefan y Cyngor [www.gwynedd.gov.uk](http://www.gwynedd.gov.uk)

Neu drwy gysylltu gyda'r Swyddfa Addysg ar 01286 679 247

E-bost: [trefniadaeth.ysgolion@gwynedd.gov.uk](mailto:trefniadaeth.ysgolion@gwynedd.gov.uk)



### I. Aelod Cabinet Addysg newydd

Yn dilyn Etholiadau'r Cyngor ar 3 Mai 2012, etholwyd Cyng. Sian Gwenllian fel Aelod Cabinet Addysg newydd ac fel Dirprwy Arweinydd y Cyngor. Datgelodd y Cynghorydd ei gweledigaeth ar gyfer dyfodol Addysg ac Ysgolion y Sir fel a ganlyn:

*Prif nôd yr Awdurdod yw rhoi'r cyfle i bob plentyn a pherson ifanc ddatblygu'n llawn. I wneud hyn rhaid sicrhau cyfundrefn addysg o fewn y Sir sydd yn gynaliadwy i'r dyfodol - yng nghefn gwlad ac yn ein trefi.*

*Mae Gweinidog Addysg Llywodraeth Cymru, Leighton Andrews, wedi nodi'n ddiweddar bod rhaid i bob Awdurdod drwy Gymru daclo'r nifer llefydd gweigion sydd yn eu hysgolion, gan fod hyn yn costio'n ddud i'r Awdurdodau ac na fydd Llywodraeth Cymru yn fodlon ariannu hyn yn y dyfodol.*



*Mae'r Cyngor yn wynebu dyfodol anodd yn ariannol ac mae'n rhaid gweithredu yn y ffordd fwyaf effeithiol er mwyn gwarchod addysg ein plant. Yn anffodus felly, mae penderfyniadau anodd o'n blaenau. Rwy'n sylweddoli fod newid yn anodd, ond fy ngobaith yw y bydd y newidiadau fydd yn cael eu hystyried, trafod a'u gweithredu gan Gyngor Gwynedd ym maes Addysg dros y 5 mlynedd nesaf yn gweithio er budd y disgyblion gan mai nhw yw ein blaenoriaeth a'n dyfodol.*

#### Y prif ystyriaethau sy'n gyrru agenda Trefniadaeth Ysgolion ydi:

1. Gwella ansawdd addysg ar draws y Sir a sicrhau cysondeb mewn safonau
2. Gwella ansawdd adeiladau ysgolion y Sir er mwyn creu amgylchedd ddysgu priodol
3. Gwneud gwell defnydd o adnoddau, gan gynnwys lleihau llefydd gweigion
4. Sicrhau fod cyfundrefn addysgol gynaliadwy ar draws y Sir
5. Datblygu cynlluniau arloesol
6. Hyrwyddo a chefnogi iechyd corfforol a lles emosiynol plant a phobl ifanc
7. Cryfhau'r laith Gymraeg

### 2. Llefydd Gweigion

Cyhoeddwyd llythyr gan Leighton Andrews, Gweinidog Addysg a Sgiliau, Llywodraeth Cymru ym mis Mai 2012 yn datgan:

*“Mae llywodraeth leol a llywodraeth Cymru yn bartneriaeth ac mae'n rhaid i atebolrwydd agored fod yn un o'i phrif hanfodion. Fe wyddoch fod addysg, a gwella safonau ysgolion yn benodol, yn flaenoriaeth i'r llywodraeth hon.*

*Ar hyn o bryd mae nifer lleoedd gwag sydd yn bodoli led-led Cymru yn uwch na'r hyn sydd ei angen a chanlyniad hynny yw bod mwy fyth o bwysau ar adnoddau allai gael eu defnyddio'n well i wella ansawdd addysg i bob dysgwr. Mae pob lle gwag yn dreth ar bob un dysgwr sydd eisoes yn y system.*

*Mae dros 20% o leoedd gwag mewn ysgolion cynradd mewn 10 awdurdod lleol ar hyn o bryd ac mae lefelau cyfatebol o leoedd gwag mewn ysgolion uwchradd mewn 6 awdurdod lleol. Mae hyn yn wastraff mawr ar adnoddau ac mae'n awgrymu mai ychydig o sylw a roddwyd i'r Canllawiau gan Lywodraeth Cymru y dylai awdurdodau lleol anelu at gadw dim mwy nag uchafswm o 10% o leoedd gwag.*

*Gofynnaf felly i'r awdurdodau lleol hynny sydd â mwy na 20% o leoedd gwag nodi pa gynlluniau sydd ganddynt i leihau lefel y lleoedd gwag yn is na 15% erbyn mis Ionawr 2015.”*

Ar hyn o bryd mae gan Cyngor Gwynedd y nifer uchaf o lefydd gweigion yng Nghymru, sef 28% rhwng y sector Cynradd ac Uwchradd ac felly mae'r gofyn i leihau ein lefydd gweigion yn is na 15% erbyn 2015 yn heriol a dweud y lleiaf. Mae cynlluniau Trefniadaeth Ysgolion eisoes ar droed mewn 3 dalgylch o fewn y Sir, ac mae nifer o gynlluniau Rhaglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain wedi eu hadnabod, felly mae'r gwaith sydd yn wynebu'r Awdurdod yn sylweddol er mwyn cyrraedd gofynion Llywodraeth Cymru.



### 3. Ysgol Ardal newydd ym Mro Dysynni

Yn dilyn cymeradwyaeth gan Leighton Andrews, Gweinidog Addysg a Sgiliau, Llywodraeth Cymru i'r argymhelliad i sefydlu ysgol ardal newydd ym Mro Dysynni, danfonwyd y cynlluniau i Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri am benderfyniad cynllunio.

Ar ôl ystyriaeth fanwl penderfynodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri gymeradwyo'r cynlluniau a bydd y gwaith yn symud yn ei flaen i lunio grŵp defnyddwyr er mwyn miniogi'r cynlluniau ac i dderbyn sylwadau gwahanol fudd-ddeiliaid. Y camau nesaf wedyn fydd:

- Sefydlu corff llywodraethol 'cysgodol' yn y cyfnod interim mor fuan â phosib. Mae'r broses yma eisoes ar droed a bydd cyswllt pellach gyda chynrychiolaeth berthnasol o'r ardal yn yr Hydref.
- Y corff llywodraethol 'cysgodol' fydd yn gyfrifol am benodi'r Pennaeth newydd i'r ysgol ardal.
- Yn dilyn hyn, bydd y llywodraethwyr a'r pennaeth yn symud ymlaen i benodi staff yr ysgol.

Mae amser cyffrous a heriol o'n blaenau i sicrhau fod y buddsoddiad o £5.4 miliwn yn adeiladau'r ysgol ardal yn cael ei wario'n ofalus er mwyn sicrhau'r budd gorau. Yn ychwanegol i hyn bydd swm pellach o arian yn cael ei fuddsoddi yn Ysgolion Penybryn, Dyffryn Dulas a Pennal er mwyn eu huwchraddio i'r safon priodol. Mae'n braf cael datgan y bydd ysgolion dalgylch Tywyn i gyd yn elwa'n sylweddol o'r buddsoddiad sydd wedi ei glustnodi ar eu cyfer.

#### Darlun Arlunydd o'r Ysgol Ardal Newydd



Dyluniad Cysyniadol

Dyluniad Cysyniadol

Dyluniad Cysyniadol

### 4. Penderfyniadau i ddod

Mae'r broses ymgynghori wedi dod i ben yn ochr ddwyreiniol dalgylch y Gader (Dolgellau) ac Ysgol Y Parc yn y Bala. Mae Rhybuddion Statudol wedi eu cyhoeddi ar gyfer y ddwy ardal yma. Danfonwyd yr argymhellion i Leighton Andrews, Gweinidog Addysg a Sgiliau, Llywodraeth Cymru am benderfyniad terfynol.

1. Yr argymhelliad yn ardal ddwyreiniol dalgylch y Gader ydi cau ysgolion Brithdir, Ieuan Gwynedd, Machreth a Dinas Mawddwy a chreu ysgol ardal aml-safle ar safle presennol Ysgol Brithdir a Dinas Mawddwy, gan wneud gwelliannau sylweddol i safle Brithdir er mwyn paratoi ar gyfer disgyblion ychwanegol ac i wneud rhai gwelliannau i safle Dinas Mawddwy.

2. Yr argymhelliad yn ardal Y Parc, Bala ydi cau Ysgol y Parc gan ddarparu lle i ddisgyblion y Parc yn ysgol O.M. Edwards, Llanuwchllyn, gan wneud y gwelliannau angenrheidiol i ysgol OM Edwards er mwyn paratoi ar gyfer disgyblion ychwanegol.

Disgwylir penderfyniad terfynol gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau yn ystod tymor yr Hydref 2012 ar y cynigion hyn.

### 5. Rhaglen Ysgolion 21<sup>ain</sup> Ganrif

Byddwch yn ymwybodol fod Cyngor Gwynedd wedi cyflwyno cais i Lywodraeth Cymru am arian cyfalaf tuag at gynlluniau Rhaglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain ac i'r Cyngor lwyddo yn y cam cyntaf i ddenu adnoddau cyfalaf ar gyfer y cynlluniau canlynol:

CYNLLUN	COST Y CYNLLUN (Amcangyfrif)
Berwyn	£10.27m
Y Gader	£3.60m
Cynllun Addysg Arbennig a Chynllun Preswyl (Hafod Lon newydd)	£12.40m
Groeslon	£4.84m
Glan Cegin	£5.11m
<b>CYFANSWM</b>	<b>£36.22m</b> h.y. £18miliwn gan y Llywodraeth a £18 miliwn gan Gyngor Gwynedd

Wrth gwrs, bydd y cynlluniau hyn yn cael eu hariannu ar y cyd rhwng y Cyngor a'r Llywodraeth. Mae gwybodaeth bellach wedi dod gan y Llywodraeth yn nodi eu bod yn barod i symud ymlaen gyda'r camau nesaf yn y broses er mwyn gwneud y buddsoddiad yn narpariaeth addysg yng Ngwynedd a led-led Cymru.

Wrth gwrs, mae'r buddsoddiadau hyn yn mynd i ddod â budd i'r economi leol. Bydd Cyngor Gwynedd yn gwneud ei orau i sicrhau fod y buddion hyn yn cael eu cadw mor lleol â phosib wrth i'r prosiectau adeiladu mawr hyn cael ei gwireddu.

Felly, dros y misoedd nesaf, bydd gwaith cefndirol yn cael ei wneud i sicrhau fod y Cyngor yn ateb gofynion y broses o ddenu'r arian cyfalaf yma. Rhaid cofio mai rhaglen am gyfnod o flynyddoedd fydd hon, a bydd angen ystyried blaenoriaethau'r Sir wrth benderfynu pa gynlluniau sydd yn barod i symud ynghynt yn hytrach nag yn hwyrach o fewn y cyfnod hwnnw.

### 6. Camau nesaf - diffinio ein blaenoriaethau

Mae'r strategaeth bresennol wedi cyflawni llawer, ond mae angen diffinio ein blaenoriaethau yn gliriach er mwyn taelo nifer o faterion argyfyngus sydd angen sylw yn y Sir:

1. Llefydd gweigion uchel 28% - y nifer uchaf drwy Gymru
2. Cynnal llefydd gweigion yn costio i'r Awdurdod - oddeutu £2.5 miliwn y flwyddyn
3. Nifer disgyblion yn disgyn - wedi lleihau 25% ers 1975
4. Nifer sylweddol o ysgolion cynradd y Sir yn derbyn cymorth ychwanegol i'w cyllido (oherwydd bod niferoedd eu disgyblion yn isel)
5. Mae niferoedd disgyblion mewn rhai o ysgolion uwchradd y Sir yn isel ac yn parhau i ostwng
6. Defnydd aneffeithlon o adnoddau'r Awdurdod
7. Gwella ansawdd adeiladau ysgolion
8. Gweithredu Rhaglen Ysgolion 21<sup>ain</sup> Ganrif
9. Parhau i wella safonau addysg

O dan arweiniad yr Aelod Cabinet Addysg newydd, bydd angen adolygu ein blaenoriaethau wrth osod cyfeiriad newydd i'r gwaith o drawsnewid ymhellach y ddarpariaeth addysg ar draws y Sir.